Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, nos Fercher, 19 Tachwedd 2025, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, S. Feeney,
K. R. Jones, J. Kenney, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

A. R. James - Arsylwr
Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs R. A. Wheatley – Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Gweinyddol

**19. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ms R. S. Roberts a D. Simmons.

**20. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.*

**21. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| i. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Y Gorlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3HU<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. M. Evans |

| | |
|---|---|
| | K. R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0437/TP<br><br>**DISGRIFIAD**: Gwaith tocio coed yn yr ystad dai sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Chesney Saxon (Sherratt Group)<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| ii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 123-131 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0440/PF<br><br>**DISGRIFIAD**: Dymchwel tai teras trillawr a ffurfio parc poced.<br><br>**YMGEISYDD:** Mr James Evans<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| iii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 123-131 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0441/CA<br><br>**DISGRIFIAD:** Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel tai teras trillawr.<br><br>**YMGEISYDD:** Mr James Evans<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| iv | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 19 Burlington Crescent, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2RA<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs J. Chamberlain-Jones<br>Mrs E. M. Chard<br>Mrs S. Connolly<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0444/HH<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad unllawr i ochr a thu ôl yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mrs Kylie McGuire |

| | |
|---|---|
| | ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| v | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Y palmant y tu allan i 49-51 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1EN<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: J. Kenney<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0467/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Gosod un Hwb Stryd BT a gwaredu'r ffonau talu BT cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Miss Verity Cheyne (BT Telecommunications plc)<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| vi | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Y palmant y tu allan i 49-51 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1EN<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: J. Kenny<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0468/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Arddangos dwy sgrin LCD digidol 75" y naill ochr i'r uned Hwb Stryd arfaethedig,<br><br>**YMGEISYDD:** Miss Verity Cheyne (BT Telecommunications plc)<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| vii | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Ann Jones AS, 25 - 27 Stryd Cinmel, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1AH<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: J. Kenny<br>Ms J. L. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0473/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd y llawr gwaelod o swyddfa i fanwerthu' newid y llawr cyntaf a'r ail a'r trydydd llawn i ffurfio dau fflat hunangynhwysol a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Awat Azad<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| viii | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn Rhodfa'r Gorllewin, Rhodfa Sydenham a Rhodfa Sandringham, Y Rhyl, Sir Ddinbych |

| | |
|---|---|
| | **WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs J Butterfield YH MBE<br>A. R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0472/MD<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu 32 annedd (yn cynnwys tai fforddiadwy), llunio mynedfa newydd i gerbydau, mannau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Cymdeithas Tai Clwyd Alyn<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |

**22. YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig o 59 annedd fforddiadwy ar dir i'r de o Ffordd Elsie, De Ddwyrain y Rhyl (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio.*

**23. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………………......